

Tasglu leuenctid

Diogelwch Ar-lein

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr

Beth yw Diogelwch Plant Ar-lein?

Yma yn yr NSPCC mae ein gwaith i gadw plant yn ddiogel ar-lein yn canolbwyntio ar roi lleisiau pobl ifanc wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud. Plant heddiw yw'r genhedlaeth gyntaf i dyfu i fyny ar-lein, ond mae penderfyniadau am y byd ar-lein yn cael eu gwneud hebddynt, gan oedolion sydd â ffracsiwn o'r wybodaeth am yr hyn maen nhw'n ei weld a'i brofi...

..dydy hynny ddim yn ddigon da. Fel rhan o'r broses o roi pobl ifanc wrth galon ein gwaith, rydyn ni'n awyddus i recriwtio Tasglu leuenctid o 15 unigolyn ifanc i fod yn rhan ganolog o'r gwaith y byddwn yn ei wneud. Bydd y gwaith hwn yn golygu siarad ag arweinwyr diwydiant y byd ar-lein, dylanwadu ar gyfreithiau a rheoliadau, ac edrych ar sut i ddatrys y tueddiadau niweidiol presennol ar-lein.

**Fel rhan o'r Tasglu leuenctid Diogelwch Ar-lein,
byddwn yn creu lle i bobl**



NSPCC

**MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO
EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR**

Registered charity in England and Wales (216401), Scotland (SC037717) and Jersey (384).

Beth yw'r Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein?

Bydd y Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein yn grŵp o bobl ifanc sy'n frwd dros gadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein a bydd yn ein helpu i gryfhau lleisiau a phrofiadau plant er mwyn helpu i gadw eraill yn ddiogel ar-lein.

Bydd y Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein yn dod â 15 unigolyn ifanc at ei gilydd a fydd yn cynrychioli pobl ifanc ar lefel sefydliadol ar gyfer gwaith Diogelwch Plant Ar-lein yn yr NSPCC, gan gwrdd â phenderfynwyr allweddol a rhannu eu profiadau a'u syniadau ynghylch diogelwch ar-lein â nhw er mwyn sbarduno newid. Bydd y bwrdd yn cynnwys pobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed o bob cwr o'r DU gyda chynrychiolaeth o bob gwlad. Byddan nhw'n cwrdd yn rheolaidd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Mawrth 2026.

Os bydd eich plentyn yn llwyddo i ymuno â'r Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein, gofynnir i chi roi caniatâd i'ch plentyn ddod i'r digwyddiadau canlynol (bydd manylion llawn a dyddiadau'n cael eu rhannu cyn pob digwyddiad):

- Digwyddiadau preswyl ar y penwythnos mewn gwahanol leoliadau yn y DU (bydd yr NSPCC yn talu'r treuliau a chostau teithio).
- Cyfarfodydd ar-lein (ar lwyfannau fideoalwad) gydag aelodau eraill o'r Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein, a gynhelir gan staff yr NSPCC.
- Cyfarfodydd gydag ymddiriedolwyr yr NSPCC ac aelodau eraill o staff, wyneb yn wyneb neu dros y we.
- Cynadleddau a digwyddiadau eraill yr NSPCC.
- Digwyddiadau allanol i bobl ifanc.

Sut byddwn ni'n cefnogi'r bobl ifanc ar y Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein?

Gallai rhai o'r pynciau y byddwn yn eu trafod gyda'r Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein fod yn sensitif a bydd staff yr NSPCC yn cefnogi'r bobl ifanc gyda hyn.

Dyma rai o'r camau y byddwn yn eu cymryd i gefnogi'r bobl ifanc:

- Byddwn bob amser yn rhoi rhybudd ymlaen llaw i rieni, gofalwyr a'r bobl ifanc ynglŷn â'r pynciau rydyn ni'n bwriadu eu trafod.
- Byddwn bob amser yn parchu hawl pobl ifanc i beidio â chymryd rhan mewn trafodaethau fel y mynnant.
- Byddwn yn treulio amser yn edrych ar bynciau sy'n debygol o godi gyda'r bobl ifanc yn unigol pan fyddant yn ymuno â'r Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein, a byddwn yn rhoi cynllun llesiant ar waith ar gyfer eu cyfnod ar y Tasglu.
- Staff hyfforddedig a chefnogol gyda gwiriadau DBS cyfredol fydd bob amser yn cynnal y sesiynau, a bydd mynediad at gymorth drwy Childline os bydd angen.

Beth fydd yn cael ei wneud

Os bydd eich plentyn yn dod yn aelod o'r Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein, bydd yn:

- Ymuno â sesiynau misol a gweithdai ar-lein gyda gweddill y Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein. Bydd rhai sesiynau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb ond bydd y rhan fwyaf yn cael eu cynnal dros y we.
- Rhannu eu barn a'u syniadau gyda phenderfynwyr allweddol yn yr NSPCC, ac arweinwyr diwydiant y byd ar-lein.
- Gweithio gyda gweddill y Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein i hyrwyddo barn pobl ifanc am y byd ar-lein drwy gydol gwaith diogelwch plant ar-lein yr NSPCC.
- Cael hyfforddiant i ddatblygu llawer o sgiliau pwysig fel ymgyrchu, siarad yn gyhoeddus a gwaith tîm.
- Cynrychioli'r Tasglu Ieuentid Diogelwch Ar-lein mewn digwyddiadau cyffrous gyda llawer o bobl sydd â diddordeb mewn diogelwch ar-lein.
- Cwrdd â thimau eraill yn yr NSPCC er mwyn helpu i wneud y byd ar-lein yn fwy diogel.
- Deall tuddiadau newydd sy'n dod i'r amlwg a gweithio fel tîm i ddatblygu cyngor a gwybodaeth am dueddiadau niweidiol.



Mae angen pobl ifanc arnom ni sydd:

- Rhwng 13 a 16 oed.
- Â diddordeb mewn cadw pobl ifanc yn ddiogel ar-lein.
- Yn barod i wrando ar eraill a pharchu eu barn.
- Yn fodlon gweithio gydag eraill a grwpiau lleol.
- Yn fodlon gwneud eu gorau glas i gyfrannu at y Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein.
- Yn gallu dod i bob cyfarfod a gweithdy rhithiol (bydd y dyddiadau'n cael eu rhannu ymlaen llaw) ac yn gallu mynychu digwyddiad preswyl wyneb yn wyneb bob blwyddyn (bydd y dyddiadau'n cael eu rhannu ymlaen llaw a bydd yr NSPCC yn talu'r costau).

Beth mae'n rhaid iddyn nhw gytuno i'w wneud?

- Mynd i bob cyfarfod ar-lein a wyneb yn wyneb, gan gynnwys digwyddiadau preswyl wyneb yn wyneb. Bydd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal dros y we bob mis, a hynny'n gynnar fin nos ac ni fyddant yn para mwy na 2 awr.
- Manteisio ar bob cyfle i gynghori'r NSPCC ar y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ar-lein.
- Dweud eu barn wrth yr NSPCC am yr hyn mae'r sefydliad yn ei wneud, a beth gallen ni fod yn ei wneud yn well i blant a phobl ifanc yn y byd ar-lein.
- Cwrdd ag arweinwyr y diwydiant ar-lein a'r penderfynwyr yn yr NSPCC i godi ymwybyddiaeth a dylanwadu ar y byd ar-lein.
- Rydyn ni eisiau sicrhau pob rhiant a gofalwr y bydd y bobl ifanc bob amser yn cael eu cefnogi'n llawn yn y prosiectau hyn ac na fyddai disgwyl iddyn nhw wneud unrhyw beth nad ydyn nhw'n teimlo'n gyfforddus ag ef.

Beth fydd pobl ifanc yn ei gael o wneud hyn?

Fel aelod o'r Tasglu Ieuenctid Diogelwch Ar-lein yr NSPCC, byddan nhw'n cael cyfle i deithio ledled y wlad i gymryd rhan mewn digwyddiadau preswyl, cyfarfodydd, ymgynghoriadau a gweithdai. Bydd eu lleisiau'n cael eu clywed gan bobl ifanc eraill, ymddiriedolwyr yr NSPCC, staff, gwleidyddion a phobl sy'n gwneud penderfyniadau. Byddan nhw'n cael eu hyfforddi a'u cefnogi i gael barn plant a phobl ifanc eraill, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Ac yn bwysicach na dim, byddan nhw'n cwrdd â phobl ifanc eraill ac yn cael llawer o hwyl gyda'i gilydd.

Faint fydd hyn yn ei gostio?

Bydd yr NSPCC yn talu costau teithio, llety a threuliau rhesymol ar gyfer cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yr hyn y byddwn yn ei dalu yn cael ei rannu â chi cyn dod i gyfarfod.

Y camau nesaf a rhagor o wybodaeth

A fyddechystal â sicrhau bod eich person ifanc yn llenwi ffurflen gais erbyn 12 Ionawr 2024, ynghyd â'r ffurflen caniatâd rhieni. Mae'r ddwy ffurflen ar gael yma <https://www.nspcc.org.uk/about-us/what-we-do/online-safety-youth-taskforce>. Os oes gennych ragor o gwestiynau, cysylltwch â: YouthCSOSolutions@Nspcc.org.uk

Amddiffyn Plant

Mae'r NSPCC wedi ymrwmo i amddiffyn plant a phobl ifanc, ac i greu diwylliant gwaith lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi a'u diogelu.

Mae gan yr NSPCC bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant ac mae disgwyl i'r holl staff weithio tuag atynt. Er mwyn greu amgylchedd diogel i blant a staff lle mae arferion gwael yn cael eu herio, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Mae'r holl staff yn cael eu harchwilio gan yr heddlu, ac mae geiradaon yn cael eu defnyddio i wneud yn siŵr bod staff yn addas.
- Mae'r holl staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi yn eu gwaith.
- Mae'r holl staff yn gweithio gan ddilyn gweithdrefnau amddiffyn plant yr NSPCC, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn ôl yr angen.
- Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ar lefel sy'n briodol i'w sefyllfa gwaith.
- Gall yr holl staff leisio pryderon ynghylch arferion gwael neu beryglus drwy weithdrefnau amddiffyn plant a pholisi chwythu'r chwiban yr NSPCC.
- Mae asesiad risg llawn yn cael ei wneud ar gyfer ein holl ddigwyddiadau.
- Rydyn ni'n gofyn am fanylion yswiriant unrhyw leoliadau allanol rydyn ni'n eu defnyddio.

